

Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol HSS-14-01(min)

COFNODION

Dyddiad: Dydd Mercher, 24 Hydref 2001
Amser: 2.00 i 4.40pm
Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 3, Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Presenoldeb: **Aelodau’r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
Ann Jones Dyffryn Clwyd
(Cadeirydd dros dro)
Peter Black Gorllewin De Cymru
Geraint Davies Rhondda
Brian Gibbons Aberafan
Jane Hutt (Gweinidog) Bro Morgannwg
Dai Lloyd Gorllewin De Cymru
David Melding Canol De Cymru
Rod Richards Gogledd Cymru
Swyddogion
Sarah Beaver Is-adran Gyllid yr NHS
Sue Cromack Is-adran Adnoddau Dynol yr NHS
Dr Ruth Hall Prif Swyddog Meddygol
Ann Lloyd Cyfarwyddwraig, NHS Cymru
Rob Pickford Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru
Sherry Rees Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru
Helen Thomas Cyfarwyddwraig, Grë p Gofal Cymdeithasol
Ysgrifenyddiaeth:
Jane Westlake Clerc y Pwyllgor
Claire Morris Dirprwy Glerc y Pwyllgor

Eitem 1: Ymddiheuriadau ac Amnewidiadau

- 1.1 Derbyniwyd ymddiheuriad gan Kirsty Williams. Cymerodd Peter Black ei lle.
- 1.2 Derbyniwyd ymddiheuriad gan Lynne Neagle yn ystod y cyfarfod.
- 1.3 Cytunwyd y dylai’r Cadeirydd ysgrifennu at Mike Shanahan, Pennaeth yr Is-adran Polisi Gofal Cymdeithasol, yn estyn cydymdeimlad y pwyllgor yn dilyn marwolaeth sydyn ei wraig.

1.4 Atgoffwyd yr Aelodau o'r gofyniad, o dan Reol Sefydlog 4.5, i ddatgan unrhyw fuddiannau cyn cymryd rhan yn y trafodaethau. Gwnaed y datganiadau canlynol:

- Peter Black, aelod o Gyngor Dinas a Sir Abertawe;
- Geraint Davies, fferyllydd ac aelod o Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf;
- Brian Gibbons, meddyg cofrestredig;
- Brian Hancock, glanweithydd galwedigaethol, ymgynghorydd diogelwch a'r amgylchedd ac ymarferydd diogelwch cofrestredig
- Dai Lloyd, meddyg teulu ac aelod o Gyngor Dinas a Sir Abertawe.

Eitem 2: Cynllunio'r Gweithlu

Papur: HSS-14-01 (p.1)

2.1 Mewn ymateb i'r papur ac i gyflwyniad y Gweinidog, gwnaeth Aelodau y pwyntiau canlynol:

- Roedd angen sicrhau bod targedau staffio yn gadarn.
- Roedd angen gwybodaeth ar nifer y staff a gyflogir yn yr NHS ar hyn o bryd, yr angen a'r diffyg presennol a'r niferoedd sydd eu hangen ar gyfer y dyfodol.
- Dylid ystyried goblygiadau ariannol cynllunio sy'n seiliedig ar angen yn gynt yn hytrach na'n hwyrach er mwyn iddynt gael eu cynnwys o bosibl i'w trafod mewn unrhyw rownd cynllunio'r gyllideb yn y dyfodol.
- Mynegwyd pryder ynglŷn â'r ffaith y dylai'r Pwyllgor gael cyfle i ystyried y targedau staffio arfaethedig cyn eu cyhoeddi.
- Roedd angen cysylltu gwaith cynllunio'r gweithlu â'r rhaglen gyfalaf er mwyn sicrhau bod gan staff offer a gweithleoedd priodol.
- Roedd angen ystyried yr iaith Gymraeg mewn cynlluniau yn y dyfodol, yn enwedig o ran therapi lleferydd.
- Roedd angen cynlluniau i alluogi staff i symud yn hyblyg rhwng grwpiau proffesiynol, e.e. nyrsys â rolau mwy eang, ac ati.
- Mynegwyd pryder ynglŷn â'r angen i gadw staff a hyfforddwyd yng Nghymru.
- Mynegwyd pryder ynglŷn â rolau a chyfrifoldebau grwpiau cynllunio'r gweithlu trosfwaol a Rhanbarthol.

2.2 Mewn ymateb i sylwadau Aelodau, gwnaeth y Gweinidog y pwyntiau canlynol:

- Dylai'r Pwyllgor anelu at drafod targedau staffio cyn y Nadolig.
- Roedd y trefniadau newydd yn cynrychioli ymagwedd strategol Cymru Gyfan, o dan arweinyddiaeth Cyfarwyddwraig yr NHS yng Nghymru
- Er ei bod yn ffordd gyfarwyddol o weithredu roedd yn strategol hefyd ac roedd angen ystyried strategaethau datblygu gwasanaethau, a byddai'r NHS yn uniongyrchol gysylltiedig â'r broses hon.
- Cydnabuwyd y goblygiadau ariannol yn rownd cynllunio'r gyllideb, a sicrhawyd eisoes bod mwy

o gyllid ar gael ar gyfer addysg a hyfforddiant.

- Byddai'r targedau staffio yn cael eu gweithredu o Ebrill 2002.
- Byddai gwaith cynllunio'r gweithlu wedi ei gysylltu â'r rhaglen gyfalaf a byddai'n cael ei ddefnyddio hefyd i lywio strategaethau recriwtio.
- Roedd rhywfaint o waith eisoes yn mynd rhagddo i fynd i'r afael â phrinder gweithwyr proffesiynol a oedd yn siaradwyr Cymraeg yn yr NHS yng Nghymru.

2.3 Cadarnhaodd Sue Cromack bod Grŵp Datblygu'r Gweithlu wedi cynnwys cynrychiolwyr o'r undebau llafur, yng ogystal â mewnbwn gan yr NHS a'r gwasanaethau cymdeithasol.

2.4 Cadarnhaodd Cyfarwyddwr yr NHS yng Nghymru y byddai'r Grŵp Llywio yn profi pob argymhelliad am staff ychwanegol yn systematig. Byddai arweiniad yn cael ei ddarparu i'r meysydd y canfyddir nad ydynt yn gwneud y defnydd mwyaf effeithiol o'u staff, ond eto ni fyddai'r meysydd aneffeithiol hynny yn cael cymorth staff ychwanegol.

Gweithredu

- Sesiwn arall i'w threfnu ar gyfer trafodaeth y Pwyllgor cyn diwedd y flwyddyn.

Eitem 3: Cyllideb Ddrafft 2002-2003

Papur: HSS-14-01 (p.2)

3.1 Cyflwynodd y Gweinidog y gyllideb ddrafft drwy atgoffa Aelodau nad oedd yn flwyddyn adolygu gwariant fawr a'r hyn yr oeddent yn ei wneud yn sylfaenol oedd ystyried cyllideb ddrafft ar gyfer 2002-03 a chynlluniau gwario arwyddol ar gyfer 2003-04. Fodd bynnag, gallai fod newidiadau i gynlluniau 2003-04 o ganlyniad i adolygiad gwariant presennol y Trysorlys, y byddai'r canlyniadau yn hysbys yr haf nesaf.

3.2 Amlygodd y Gweinidog y meysydd canlynol, a nodwyd fel blaenoriaethau'r Pwyllgor:

- Dylid sicrhau bod systemau hyblyg diwedd flwyddyn ar gael ar gyfer buddsoddi cyfalaf iechyd, a fyddai'n galluogi'r NHS i ddechrau ar brif raglen adnewyddiadau cyfalaf i gymryd lle offer sydd wedi dyddio ac i fynd i'r afael ag ystod o flaenoriaethau gwariant cyfalaf dybryd.
- Darparu £3.6m i'r Ymddiriedolaeth Ambiwlans i'w galluogi i ddefnyddio 36 o gerbydau argyfwng llawn offer a 25 o gerbydau trafnidiaeth cleifion newydd yn lle cerbydau sydd wedi dyddio.
- Cyllid ychwanegol ar gyfer adeiladau ac offer sy'n gysylltiedig â'r galon a chanser.
- 0.5% o gynnydd rheolaidd ychwanegol yn nyroniad Gwasanaethau Ysbyty a Iechyd Cymunedol i gynorthwyo â'r gost o weithredu argymhellion y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol (NICE).
- Cyllid parhaol ar gyfer y Gronfa Anghydraddoldebau Iechyd.
- Cyllid ychwanegol i barhau â'r cynnydd o 5% yn fwy na'r lefelau a gynlluniwyd yn flaenorol ym

maes nyrsio a phroffesiynau sy'n gysylltiedig â hyfforddiant meddygaeth, recriwtio a chadw.

- Cyllid rheolaidd ar gyfer y cynlluniau nyrsio a bwrsari ar gyfer y rheini sy'n cwblhau cyrsiau Dychwelyd i Ymarfer.
- Cyllid tuag at y gwaith o ehangu addysg glinigol yng Nghymru ymhellach.
- Cyllid ar gyfer clybiau brecwast drwy grantiau i fentrau Bwydydd Cymunedol.
- £3,000 i bob ardal awdurdod lleol i hyrwyddo siopau bwyd ffrwythau.
- Cyllid ychwanegol ar gyfer y rhaglen Plant yn Gyntaf i hwyluso gwelliannau o fewn gwasanaethau mabwysiadu awdurdodau lleol ac i ddatblygu'r Strategaeth Gofal Plant Cenedlaethol yng Nghymru.
- Cyllid pellach ar gyfer y sector gwirfoddol ac i annog gwaith gwirfoddol, ar gyfer y Cyngor Gofal ac i sefydlu Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru.
- O Ebrill 2002, ni fyddai angen i'r henoed a oedd yn talu am eu gofal cartref nyrsio eu hunain dalu am ofal nyrsio bellach. Sicrhawyd cyllid ychwanegol, oherwydd ymddengys fod nifer y bobl sy'n gymwys ar gyfer gofal nyrsio yn uwch nag a amcangyfrifwyd yn wreiddiol.
- Cyllid ar gyfer mentrau chwarae plant.
- Cymorth ar gyfer maes camddefnyddio cyffuriau ac alcohol.

3.3. Gwnaeth Aelodau y pwyntiau canlynol:

- Nid oedd y DU yn cyrraedd y lefel Ewropeaidd o ran gwariant iechyd o hyd.
- Roedd angen trafodaeth genedlaethol ynglŷn â sut y gellid sicrhau adnoddau ychwanegol ar gyfer y gwasanaeth iechyd.
- Roedd angen mesurau argyfwng er mwyn sicrhau na cholli'r gwelyau mewn cartrefi gofal preswyl.
- Roedd angen ehangu'r Gronfa Anghyfartaleddau Iechyd er mwyn mynd i'r afael ag anghyfartaleddau sylfaenol.
- Mynegwyd pryder ynglŷn â'r ffaith nad yw ceiswyr lloches yn gymwys ar gyfer llaeth am ddim.
- Croesawyd y cyllid ychwanegol i fynd i'r afael â'r broblem o gamddefnyddio sylweddau, ond mynegwyd pryder ynglŷn â'r ffaith bod yn rhaid aros 18 mis am driniaeth o hyd.
- Roedd 5.8% o gynnydd ar gyfer Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol yn ymddangos yn ansylweddol yng ngoleuni'r gofyniad am staff ychwanegol yn deillio o Fframweithiau Gwasanaeth Cenedlaethol a mentrau gofal eraill yr oedd angen eu gweithredu.
- Roedd angen gwneud mwy i gynorthwyo'r gwasanaeth ambiwlans. Mynegwyd pryder ynglŷn â'r ffaith bod mynediad gan ymatebwr cyntaf yn cyfrannu at gyflawni targedau amserau ymateb yr ambiwlansiau.
- Mynegwyd pryder ynglŷn â ph'un a fyddai diddymu awdurdodau iechyd yn rhyddhau cynilion ai peidio.

3.4 Mewn ymateb i sylwadau Aelodau, gwnaeth y Gweinidog y pwyntiau canlynol:

- Waeth pa mor ofalus y rheolwyd y cyllidebau arfaethedig, byddai llithriant, a nodwyd projectau i lenwi'r bylchau a gai eu hachosi gan lithriant o'r fath.
- Byddai'r Gronfa Anghyfartaleddau Iechyd yn cael ei hategu gan y gwaith o ailgyfeirio adnoddau yn seiliedig ar dargedu ardaloedd o iechyd gwael o ganlyniad i Adroddiad Townsend, sy'n destun

ymgynghoriad ar hyn o bryd, pe derbyniwyd yr argymhellion.

- Roedd y cynigion ar gyfer cynllun mynediad graddedigion i hyfforddeion meddygol yn cael eu hystyried ar hyn o bryd ond nid oedd y cynlluniau yn ddigon cadarn i'w galluogi i gynnwys llinell gyllideb ar hyn o bryd.
- Cydnabuwyd y pryderon ynglŷn â chamddefnyddio sylweddau. Roeddent yn ceisio cael gafael ar wybodaeth ynglŷn â sut yr oedd awdurdodau lleol yn defnyddio eu dyraniadau camddefnyddio sylweddau a byddai gwybodaeth bellach yn cael ei ddarparu unwaith y byddai'n dod i law.
- Roedd y Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol yn un maes lle y cafwyd tanwariant. Bwriad y 5.8% o gynnydd oedd cynorthwyo â'r gwaith o weithredu argymhellion NICE ac roedd yn cydnabod yr anwadalrwydd mewn gwariant ar wasanaethau iechyd y teulu.
- Roedd cyllid i hyfforddi optometryddion yn rhan o addysg uwch ac nid yr NHS.
- Iechyd a diogelwch oedd prif flaenoriaeth y rhaglen gyfalaf a byddai'r angen i gael gwared ar asbestos yn Ysbyty Glan Clwyd, yn unol â'r rhaglen a oedd ar waith yn Ysbyty'r Tywysog Siarl, yn parhau'n flaenoriaeth.
- Byddent yn ymchwilio i ffynonellau posibl ar gyfer ariannu'r Ganolfan Adnoddau i'r Anabl ym Modelwyddan.
- Byddai'r fenter Bwyd Lles yn cael ei harchwilio i sicrhau ei bod yn hygyrch i'r rheini sydd â'r anghenion mwyaf.
- Cafodd costau gwiriadau gan yr heddlu ynglŷn â phobl a oedd yn gweithio yn y sector gwirfoddol eu hildio. Byddai gwybodaeth bellach ynglŷn â'i weithrediad yn cael ei ddarparu.

3.5 Derbyniodd y Pwyllgor eu bod wedi mynd i'r afael â'r blaenoriaethau a amlinellwyd yn llythyr Kirsty Williams dyddiedig y 17 Gorffennaf. Byddai'r Cadeirydd yn awr yn ysgrifennu at y Gweinidog yn cadarnhau hyn.

Gweithredu

- Byddai diweddariad ar ddefnydd awdurdodau iechyd o ddyraniadau camddefnyddio sylweddau yn cael ei ddarparu.
- Byddent yn cael gafael ar fanylion ynglŷn ag unrhyw gynnydd arfaethedig mewn cyllid ar gyfer hyfforddiant i optometryddion.
- Byddent yn cael gafael ar amserau ymateb gan yr Ymddiriedolaeth Ambiwlans.
- Roedd angen darparu gwybodaeth bellach ar gynllun gwirio'r heddlu i'r sector gwirfoddol.
- Roedd angen i'r Cadeirydd ysgrifennu at y Gweinidog yn cadarnhau eu bod wedi mynd i'r afael â blaenoriaethau'r Pwyllgor.

Eitem 4: Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru

Papur: HSS-14-01 (p.3)

4.1 Croesawodd y cadeirydd Rob Pickford, a fyddai'n arwain yr Arolygiaeth, a Sherry Rees,

4.2 Cyflwynodd y Gweinidog y papur a chadarnhaodd y byddai llinell atebolrwydd o Bennaeth yr Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru iddi hi.

4.3 Mewn ymateb i sylwadau'r Aelodau, gwnaeth swyddogion y Cynulliad y pwyntiau canlynol:

- Ni fyddai staff trosglwyddo yn cael eu sgrinio oherwydd bod gan bawb sy'n ymwneud â gwaith arolygu ar hyn o bryd, hawl trosglwyddo o dan y Ddeddf Safonau Gofal. Byddai'r Cynulliad yn cymhwyso egwyddorion Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth). Byddai unrhyw un a fyddai'n cael ei ddyrchafu yn Uwch Arolygydd yn amodol i raglen sgrinio gyflawn, a byddai 70 o arolygwyr ychwanegol yn cael eu recriwtio yn unol â gweithdrefnau recriwtio'r Cynulliad.
- Byddai unrhyw staff trosglwyddo nad ydynt yn bodloni'r safonau gofynnol yn derbyn hyfforddiant ychwanegol. Cyfeiriodd y Gweinidog at y ffaith y byddai'n annhebygol o fod yn angenrheidiol, oherwydd bod cyflogwyr presennol yn gyfrifol am hyfforddi a datblygu Arolygwyr.
- Roedd y rhan fwyaf o staff a ystyriwyd yn gymwys i gael eu trosglwyddo wedi datgan eu bwriad i wneud hynny ac roedd y gweddill wedi sicrhau cyflogaeth foddhaol arall.
- Byddai swyddogaeth Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru yn wahanol iawn ac ar wahân i swyddogaeth Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru. Roedd protocolau yn cael eu datblygu i hwyluso'r gwaith o rannu gwybodaeth rhwng Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru a thimau polisi.
- Ymgwymerwyd â'r gwaith o ddrafftio rheoliadau ar y cyd â Lloegr. Ar gyfer rhai rheoliadau cafwyd ymgynghori ynglŷn â ph'un a oedd y rhai a baratowyd yn Lloegr yn addas i'w defnyddio yng Nghymru, cafodd eraill eu hadolygu i adlewyrchu anghenion Cymru cyn cychwyn ar y gwaith ymgynghori.
- Cynigiwyd y dylid cynnal arolygiadau yn flynyddol, gyda rhaglen o ymweliadau a gyhoeddwyd ymlaen llaw ac ymweliadau nas cyhoeddwyd ymlaen llaw. Lle y cynhaliwyd arolygiadau a ddeilliodd o gwynion, neu lle y nodwyd cwynion yn ystod arolygiad, byddai arolygiadau yn cael eu cynnal mor aml ag y bo'r angen.
- Disgwyliwyd y byddai'r gwaith o gofrestru cartrefi gofal yn digwydd trwy ddeialog ac arweiniad i helpu cartrefi i fodloni'r meini prawf.
- Byddai Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru yn cyflogi staff o nifer o grwpiau proffesiynol, yn cynnwys rhai o gefndir nyrsio.

4.4. Cytunwyd y dylid trefnu sesiwn frifio ynglŷn â chynnydd Project Gweithredu Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru. Roedd y meysydd o ddiddordeb arbennig yn cynnwys sut y byddai Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru yn gweithio o fewn meysydd amrywiol, a materion am gydb berthnasau a llinellau atebolrwydd. Cytunwyd hefyd y dylid cynnwys Cyngor Gofal Cymru.

- Trefnu sesiwn friffio ar gynnydd Project Gweithredu'r Arolygiaeth safonau Gofal.

Eitem 5: Ymateb i Adroddiad gan Ombwdsmon Gweinyddiaeth Cymru

Papur: HSS-14-01 (p.4)

5.1 Mewn ymateb i'r papur a chyflwyniad y Gweinidog, mynegodd Aelodau eu barn mai aelodau etholedig a ddylai roi ymddiheuriad am gamweinyddu ac nid swyddogion y Cynulliad.

5.2 Dywedodd Helen Thomas y byddai'r Ysgrifennydd Parhaol wedi cynnig yr ymddiheuriad fel pennaeth y Gwasanaeth Sifil yn y Cynulliad Cenedlaethol a'r Swyddfa Gartref yn flaenorol.

5.3 Mewn ymateb i ymholiad ynglŷn â'r rheswm y cyfeiriwyd yr adroddiad at y Pwyllgor, cyfeiriodd y Cadeirydd at Reol Sefydlog 21.6 a oedd yn gofyn i Weinidog y Cynulliad, wrth dderbyn adroddiad gan yr Ombwdsmon, ei gyflwyno i'r pwyllgor pwnc perthnasol gydag ymateb arfaethedig.

5.4 Cytunwyd ar ymateb drafft y Prif Ysgrifennydd i'r Ombwdsmon.

Eitem 6: Papurau i'w Nodi

HSS-14-01 (p.5):

Diheintio Dyfeisiau Meddygol

HSS-14-01 (p.6):

Adroddiad gan y Comisiwn Archwilio ynglŷn â'r Defnydd o Nyrsys Banc ac Asiantaeth

HSS-14-10 (p.7):

Ehangu Addysg Feddygol ac Ymchwil yng Nghymru

6.1 Cytunwyd y byddai'r Gweinidog yn darparu diweddariadau ar y tri phapur i'w nodi drwy gyfrwng ei hadroddiad misol.

Eitem 7: Unrhyw Fusnes Arall

7.1 Dywedodd y Cadeirydd wrth yr Aelodau bod Cymdeithas Siartredig y Ffisiotherapyddion wedi eu hysbysu bod y Diwrnod Gofal Cefn Cenedlaethol yn cael ei gynnal ar ddydd Mawrth 30 Hydref.